



Graffiau llinell emosiwn

- 1** Os yw'ch grŵp yn newydd i'r cysyniad o newid yn yr hinsawdd, gallwch chi ddechrau trwy ofyn iddyn nhw beth maen nhw'n ei wybod amdano. Eglurwch mai newid hinsawdd yw'r newid hirdymor ym mhatriau tywydd cyfartalog ar draws y byd. Ers canol y 1800au, mae bodau dynol wedi cyfrannu at ryddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill i'r aer. Mae hyn yn achosi i dymheredd byd-eang godi, gan arwain at newidiadau hirdymor i'r hinsawdd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar **wefan y Swyddfa Dywydd**.
- 2** Cyflwynwch y syniad o 'graff llinell emosiwn' gan ddangos rhai enghreifftiau (ar sleid 2). Eglurwch fod 'graff llinell emosiwn' yn ein galluogi i gofnodi ein hemosiynau mewn ymateb i rywbeth.
- 3** Dywedwch wrth y grŵp y byddan nhw'n creu eu graff llinell emosiwn unigol eu hunain ar gyfer ffilm am newid hinsawdd. Rhowch y templed iddynt (ar dudalen 4), mae gan hwn gobeithiol/pesimistaidd ar yr echelin fertigol ac amser o 6 munud yn rhedeg ar hyd yr echelin gwaelod (sef hyd y ffilmiau yn fras). Yn dibynnu ar lefel y grŵp rydych chi'n gweithio â nhw, gallech chi eu hannog i ychwanegu eu hemosiynau eu hunain ar yr echelin fertigol (hynny yw, pryderus, dan straen, gobeithiol, rhyddhad, hapus, trist).



25 munud



Gwaith grŵp



Ffilm newid hinsawdd



Cyflwyniad graffiau llinell emosiwn

4 Dangoswch un o'r ffilmiau a awgrymir isod a gofynnwch i bawb gwblhau'r graff llinell wrth iddynt wyllo'r ffilm. Efallai y byddwch am oedi'r ffilm ar adegau allweddol, er mwyn galluogi pobl ifanc i gofnodi eu hemosiynau.

Rhagolygon tywydd y dyfodol ar gyfer y flwyddyn 2050

Ffilm gan y Swyddfa Dywydd, Mae'r fideo hwn yn dangos rhai o'r effeithiau y gall pobl a busnesau ddisgwyl eu profi erbyn haf 2050 o dan senario allyriadau uchel.

Yn ogystal â thymheredd yn codi, mae'r fideo yn amlinellu rhai o'r newidiadau ffisegol eraill yn yr hinsawdd y gallwn eu disgwyl a sut y gallent effeithio ar bobl, busnesau a diwydiant.

Newid Hinsawdd - Pa mor Gyflym Mae'r Byd yn Cynhesu?

Ffilm gan y Swyddfa Dywydd am newid hinsawdd a sut mae'n achosi tywydd mwy eithafol ledled y byd. Ond faint mae'r byd wedi cynhesu, beth sydd wedi achosi'r cynhesu hwn a sut olwg allai fod ar y dyfodol? Yn y fideo, mae meteorolegydd y Swyddfa Dywydd Aidan McGivern yn crynhoi'r hyn y mae'r wyddoniaeth yn ei ddweud wrthym.

5 Rhannwch y grŵp yn dimau o dri neu bedwar a gofynnwch iddynt rannu eu graffiau llinell unigol â'u cyd-aelodau o'r tîm, gan ystyried ble a pham y gallai eu graffiau llinell fod yn wahanol. Gallwch ofyn y cwestiynau ysgogi canlynol (ar sleid 3):

- Ai oherwydd bod rhai pobl yn cael mwy o ymateb emosiynol i newid hinsawdd nac eraill?
- A yw hyn oherwydd bod rhai pobl yn deall newid hinsawdd yn fwy nac eraill?
- A yw'n bwysig cael negeseuon gobeithiol am newid hinsawdd yn ogystal â rhai pesimistaidd?

Estyniad dewisol

IYn yr estyniad dewisol hwn, bydd pobl ifanc yn archwilio straeon cadarnhaol am y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Eglurwch fod llwybr meddwl sy'n awgrymu y gall adrodd yn anghytwys ar straeon newid hinsawdd, hynny yw, rhannu straeon trychineb hinsawdd heb bwysleisio ymdrechion cadarnhaol i liniaru newid hinsawdd, achosi diffyg gweithredu yn hytrach na rhagweithioldeb. Gofynnwch i'r grŵp sut maen nhw'n teimlo pan fyddan nhw'n clywed straeon cadarnhaol am y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Gofynnwch i bawb ymchwilio i wahanol fentrau, syniadau ac arloesiadau y mae pobl, fel gwyddonwyr ac entrepreneuriaid, wedi'u cynnig. Bydd hyn yn gofyn am rywfaint o ymchwil ar-lein a defnydd o lyfrgell yr ysgol i edrych trwy gyhoeddiadau gwyddoniaeth. Gallant ddefnyddio rhai o'r gwefannau isod:

<https://happyeconews.com/about/>

<https://www.goodgoodgood.co/impact/environment>

Dewiswch amser i rai gwirfoddolwyr rannu eu straeon cadarnhaol â gweddill y grŵp ac ystyriwch sut y gellid rhannu'r rhain â gweddill yr ysgol neu yn eu cymuned ochr yn ochr â mentrau cynaliadwyedd eraill.



30 munud



Gwaith grŵp

Graff emosiwn

